

ESGOB ANNIBYNNOL EI FARN

Mae'r Archesgob John Davies wedi ymddeol. Nawr, bydd rhaid ethol esgob ac archesgob newydd. Cyn sefydlu'r Eglwys yng Nghymru yn 1920 doedd esgobion ddim yn cael eu hethol. Pan roedd yn rhan o Eglwys Loegr, roedd esgobion yn eu hapwyntio gan y brenin neu'r frenhines ar gyngor y Prif Weinidog.

Heddiw os ydych chi am fod yn esgob rhaid ichi gael cefnogaeth mwyafrif yn y Coleg Ethol. Ond dim ond un dyn oedd yn rhaid i chi gael o'ch plaid cyn hynny. A dyna pam roedd ambell i "gymeriad gwahanol" gael ei hun yn "y barchus, arswydus swydd".

Un oedd esgob Tyddewi rhwng 1840 ac 1874, Connop Thirwall. Roedd e'n ddyn galluog a deallus. Roedd e hefyd yn annibynnol iawn ei farn.

Sais o Lundain oedd Thirwall. Roedd ei dad hefyd yn weinidog yn Eglwys Loegr. Cafodd Thirwall hefyd ei ordeinio ond roedd yn gweithio yng Ngholeg y Drindod, Caergrawnt. Oherwydd ei fod wedi cefnogi gadael i anghydfurfwyr astudio ar gyfer graddau prifysgol cafodd ei orfodi i ymddiswyddo. Enghraifft gynnar o'i annibyniaeth barn. Ar ôl cyfnod byr fel offeiriad plwyf, fe ddaeth i sylw'r Prif Weinidog ar y pryd, yr Arglwydd Melbourne, achos ei fod e wedi cyfieithu gwaith diwinydd amlwg o'r Almaen. Fe wnaeth e gynghori'r Frenhines Victoria ei wneud yn esgob Tyddewi.

Fel esgob roedd yn dal i gefnogi achosion dadleuol: rhoi arian cyhoeddus i goleg Catholig Rhufeinig yn Iwerddon, cael gwared â deddfau oedd yn atal Iddewon rhag cymryd rhan gyflawn mewn bywyd cyhoeddus, a datgysylltu Eglwys Iwerddon. Yn wahanol i fwyafrif mawr o esgobion eraill ar y pryd wnaeth Thirwall ddim gwrthod yr hawl i'r Esgob Colenso i bregethu yn esgobaeth Tyddewi na galw arno i ymddiswyddo. Roedd Colenso, esgob yn Ne Affrica, wedi cyhoeddi syniadau dadleuol iawn (ar y pryd) ynglŷn â'r Beibl.

Fel arfer byddai esgobion yn marw yn eu swyddi. Ond newidiodd y ddeddf ac roedd Thirwall gyda'r cyntaf i ymddeol pan deimlodd ei bod hi'n anodd iddo wneud ei swydd yn iawn.

Yng nghanol hynny i gyd fe ddysgodd Gymraeg er mwyn medru cyfathrebu'n well gyda mwyafrif clerigwyr a phlwyfolion esgobaeth Tyddewi ar y pryd oedd ddim yn siarad un gair o Saesneg!

GEIRIAU

annibynnol ei farn, annibyniaeth barn = independence of thought

ymddeol = to retire

ethol = to elect

sefydlu = to establish

cyngor, cyngori = advice, to advise

cefnogaeth = support

mwyafrif = a majority

Coleg Ethol = Electoral College

o blaid, o'ch plaid = in favour, in your favour

ambell i = a few, an occasional

cymeriad = character

“y barchus, arswydus swydd” = “the respected and terrifying office”. This is a quote from the work of the poet Goronwy Owen describing the ministry and is used widely for any responsible job.

gweinidog = minister

cafodd ... ei ordeinio = he was ordained

Caergrawnt = Cambridge

anghydfurfwyr = nonconformists

diwinydd = theologian

achosion dadleuol = controversial subjects

cyhoeddus = public

Catholig Rhufeinig = Roman Catholic

atal = stop

Iddewon = Jews

datgysylltu = disestablish

ymddiswyddo = to resign

cyfathrebu = to communicate



Caption for photograph:

Yr Esgob Connop Thirwall (1797-1875).
Llun: Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Atgynhychwyd yn unol â'r Drwydded Archif Greadigol.